**CYMDEITHAS SENEDDOL Y GYMANWLAD**
**CANGEN WEITHREDOL CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**ADRODDIAD I'R CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL AM Y CYFNOD**
**1 TACHWEDD 2007 – 31 RHAGFYR 2008**

## Cefndir

Cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'n unfrydol ar gynnig a arwyddwyd gan arweinwyr y pedair plaid i wneud cais am aelodaeth o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad (CPA) ar 7 Gorffennaf 1999. Cafodd Cymru ei chroesawu'n ffurfiol i'r CPA yng nghyfarfod y Gymanfa Gyffredinol yn Nhrinidad ar 19 Medi 1999.

Mae Pwyllgor Gweithredol y Gangen yn cyfarfod o leiaf unwaith y tymor, ar y sail bod croeso i unrhyw Aelodau eraill o'r Gangen fod yn bresennol. Cynhelir Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol o'r Gangen gyfan pob hydref yn arferol. O ganlyniad i ailstrwythuro a newidiadau o ran personél o fewn y Tîm Cysylltiadau Rhyngwladol bu'n ofynnol gohirio'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni – o ganlyniad mae'r adroddiad hwn yn cynnwys cyfnod o 14 mis.

## Strwythur y Gangen

### Holl Aelodau'r Cynulliad

*Llywydd :* Y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Elis-Thomas AC PC
*Is Lywydd:* Rosemary Butler AC

*Cadeirydd:* Janet Ryder AC

*Is Gadeiryddion:*
Jeff Cuthbert AC
Mike German AC
Alun Cairns AC

*Ysgrifennydd:*
Claire Clancy, Prif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru

*Ysgrifenyddiaeth:*
Al Davies

## ADRODDIAD Y CADEIRYDD

Mae'r Gangen wedi cadw'i safle fel Aelod gweithgar o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad. Mae wedi anfon cynrychiolwyr i seminarau a chynadleddau yn y DU a thramor. Mae wedi cryfhau'r cysylltiadau a sefydlwyd gyda Senedd Lesotho ac mae wedi datblygu profiadau pellach yn sgil darparu rhaglenni atgyfnerthu seneddol. Mae'r Gangen wedi croesawu ymwelwyr amrywiol o'r Gymanwlad drwyddi draw sy'n dod i ymweld â'r Cynulliad.

## GWEITHGAREDDAU A WNAED YN Y CYFNOD DAN SYLW YN YR ADRODDIAD:

### 2007

### Tachwedd

**Seminar Newid yn yr Hinsawdd**
Cynrychiolodd Darren Millar AC y Gangen yn y seminar ar Newid yn yr Hinsawdd yn Senedd San Steffan dan arweiniad Cangen y Deyrnas Unedig o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad.

### Rhagfyr

Ymwelodd Brynle Williams AC â Senedd De Cymru Newydd yn Awstralia, gan gryfhau'r cysylltiadau sefydledig sydd rhyngddi â Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd y rhaglen a drefnwyd ar gyfer Brynle Williams rhwng y ddwy gangen o'r CPA yn cynnwys cyfarfodydd nodedig gyda Llefarydd y Cynulliad Deddfwriaethol, y Gwir Anrhydeddus Richard Torbay AS, Gweinidogion y Llywodraeth, arweinyddion y gwrthbleidiau a Chlerc Pwyllgor. Rhoddwyd iddo daith o amgylch yr ystâd Seneddol ehangach yn ogystal â chyfle i weld sesiwn Holi ac Ateb yn y Cynulliad Deddfwriaethol.

### 2008

**Diwrnod y Gymanwlad, 11 Mawrth 2008.**
Dathlwyd Diwrnod y Gymanwlad yn y Senedd a Thŷ Hywel eleni gyda'r thema "**Yr Amgylchedd, Ein Dyfodol**" . Cynhaliwyd seminar ar gyfer pobl ifanc a chafwyd dadl Diwrnod y Gymanwlad yn y Siambr yn ystod awr olaf sesiwn Cyfarfod Llawn y dydd, gyda thua 80 o westeion o wahanol sefydliadau sy'n cysylltu Cymru a'r Gymanwlad yn gwylio. Yna cynhaliodd Llywydd Cangen Cymdeithas y Gymanwlad yng Nghymru, y Gwir Anrhydeddus yr Arglwydd Elis-Thomas AC dderbyniad yn y Cwrt.
Yn dilyn gwahoddiad gan Ysgrifenyddiaeth Pencadlys y Gymdeithas hefyd anfonodd y Gangen ddau o bobl ifanc o Gymru i Ddefod Diwrnod y Gymanwlad a gynhaliwyd yn Llundain y diwrnod cynt.

Darparodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru raglen hyfforddi ar gyfer dau aelod a chlerc **pwyllgor HIV/AIDS Senedd Lesotho**, oedd yn cyd-ddigwydd â Diwrnod y Gymanwlad y Gangen.

**38ain Cynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir, Gibraltar, 11-15 Mai 2008.**
Cynrychiolwyd cangen Cymru o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad gan ddirprwyaeth lawn, yn cynnwys Rosemary Butler AC, Janet Ryder AC, Mike German AC, Jeff Cuthbert AC ac Alun Cairns AC fel Cynrychiolydd y Pwyllgor Gweithredol Rhyngwladol. Canolbwyntiodd sesiwn lawn y gynhadledd a'r gweithdai ar themâu:

- **Arbed a chynhyrchu ynni;**
- **Twristiaeth a'r Amgylchedd**

Rhoddodd thema'r gynhadledd gyfle i ganoli sylw ar nifer o feysydd y mae Aelodau'r Cynulliad yn ymgysylltu'n uniongyrchol â hwy. Yr oedd thema "Arbed Ynni" yn benodol yn cysylltu'n uniongyrchol â gwaith y Pwyllgor Cynaliadwyedd. Yr oedd gan aelodau'r un ar ddeg cangen arall oedd yn bresennol yn y gynhadledd ddiddordeb arbennig yn y corffori'r egwyddor cynaliadwyedd o fewn Deddfau Llywodraeth Cymru 1998 a 2006.

**54fed Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad - 4-10 Awst 2008.**
Cynrychiolodd Cadeirydd y Gangen Janet Ryder AC, a Nerys Evans AC Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn y gynhadledd a gynhaliwyd yn **Kuala Lumpur, Malaysia**. Hefyd yr oedd Alun Cairns AC yno fel Cynrychiolydd Rhanbarthol. Y thema ar gyfer y Gynhadledd Lawn eleni oedd '**Ymestyn Rôl y Senedd yn y Gymdeithas Fyd-Eang: yr Amgylchedd, Datblygiad a Diogelwch**. Daeth dros 600 o seneddwyr o'r cyfan o 9 rhanbarth y Gymanwlad, gyda 50 gwlad a dros 160 o seneddau a deddfwrfeydd yn cael eu cynrychioli.

**Atgyfnerthu Seneddol â Lesotho,**

**16-20 Medi 2008.**
Mynychodd Mike German AC seminar ar ôl yr etholiad, a gynhaliwyd yn y brifddinas Maseru, pan wnaeth gyflwyniadau ar "Ddemocratiaeth Seneddol" a "Moeseg ac Atebolrwydd Aelodau Seneddol"

**12 Tachwedd 2008**
Roedd yr "**Ocsiwn Addewidion**" yng Ngwesty Dewi Sant ym mhresenoldeb Ei Fawrhydi'r Brenin Letsie III yn llwyddiant ysgubol, yn codi tua £7000 ar gyfer apêl Dolen 25 a fydd yn cyfrannu tuag at adeiladu a chefnogi canolfan ddiwylliannol a hyfforddi fodern yn Lesotho.

**13 Tachwedd 2008**
Croesawodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Ei Fawrhydi'r Brenin Letsie III o Lesotho i'r Senedd ar ei ymweliad hanesyddol cyntaf â Chymru. Rhoddodd yr ymweliad, oedd yn rhan o daith pedwar diwrnod Ei Fawrhydi yng Nghymru, gyfle i gryfhau'r cysylltiadau tymor hir sydd eisoes wedi'u sefydlu rhwng Cymru a Lesotho, nid yn unig dros y naw mlynedd diwethaf ers ffurfio'r Cynulliad, ond gydag ystod eang gwaith ardderchog Dolen Cymru' dros y pum mlynedd ar hugain ddiwethaf .

**Amrywiol Ymwelwyr o'r Gymanwlad â'r Senedd.**
Darparodd y Gangen aelodau i gynorthwyo i ddarparu rhaglenni ar gyfer ymwelwyr o'r Gymanwlad â'r Cynulliad:

- Yr Anrhydeddus Simon O'Brien MLC, Senedd Gorllewin Awstralia – Tachwedd 07
- Yr Anrhydeddus Nick Griffiths MLC, Llywydd y Cyngor Deddfwriaethol, Senedd Gorllewin Awstralia – Chwefror 08
- Yr Anrhydeddus (Richard) George Richard Torbay, Llefarydd y Cynulliad Deddfwriaethol, Senedd De Cymru Newydd ynghyd â Russell Grove, Clerc i'r Senedd – Ebrill 08
- Yr Anrhydeddus Don Harwin Aelod o'r Cyngor Deddfwriaethol, Senedd De Cymru Newydd – Ebrill 08
- Yr Anrhydeddus Don Wing Llywydd y Cyngor Deddfwriaethol a Mr David Pearce Clerc y Cyngor Deddfwriaethol, Senedd Tasmania – Mai 08
- Yr Anrhydeddus Hlomohang Morokole Is-Lywydd Senedd Lesotho - Tachwedd 08

## DATBLYGIADAU:

**Newid Ysgrifenyddiaeth y Gangen**
Wedi saith mlynedd yn y swydd, trosglwyddodd Peter Kellam o Ysgrifenyddiaeth y Gangen i swydd newydd gyda Llywodraeth y Cynulliad ym mis Mehefin y llynedd. Dymuna'r gangen gofnodi ei gwerthfawrogiad i Peter am ei waith a'i gyfraniad mawr i ddatblygiad a llwyddiant y Gangen.

## RHAGOLWG

**Cynllun Noddi'r Gangen (cyfredol)**
Atgoffir yr Aelodau am y ffaith fod y cynllun hwn ar gael ac anogir hwy i chwilio am gyfleoedd i wneud ceisiadau am gymorth ar gyfer ymweliadau astudio â Seneddau a Chynulliadau eraill y Gymanwlad. Dylai aelodau sydd â diddordeb yn y cyfle hwn e-bostio yn y lle cyntaf

at ysgrifenyddiaeth y Gangen, Al Davies (al.davies@wales.gsi.gov.uk) yn rhoi amlinelliad byr a chynllun busnes am eu hymweliad astudio arfaethedig.

**Cynhadledd Rhanbarth Ynysoedd Prydain a Môr y Canoldir. 15 – 19 Mehefin 2009.** Bydd Cangen Ynys Guernsey o Gymdeithas Seneddol y Gymanwlad yn croesawu 40fed Cynhadledd BIMR.

**Diwrnod y Gymanwlad, 10 Mawrth 2009.**
Dethlir Diwrnod y Gymanwlad gyda derbyniad min nos yn y Senedd. Ymhellach, bydd thema'r Gymanwlad eleni,: "**Y Gymanwlad@60 – yn gwasanaethu Cenhedlaeth Newydd**" yn cael ei gorffori yn nathliadau 10fed penblwydd y Cynulliad Cenedlaethol yn yr hydref.

**Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad, Medi 2009.**
Bydd 55fed Cynhadledd Seneddol y Gymanwlad yn cael ei chynnal yn Arusha, Tanzania, rhwng 21 - 29 Medi 2009.
**Dalier sylw:** Gwahoddwyd cangen Cymru o'r CPA i gyflwyno awgrymiadau ar gyfer thema'r gynhadledd a phynciau trafod, fel a ganlyn:

(i) thema gyffredinol Cynhadledd 2009;
(ii) y gweithdai – i gynnwys awgrymiadau gan y Gangen sy'n croesawu, Seneddwyr Benywaidd y Gymanwlad a Changhennau Bach;
(iii) Sesiwn cyfarfod llawn

Anogir Aelodau i gyflwyno awgrymiadau i Al Davies erbyn 17 Chwefror 2009